# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 10

CWYNION, SYLWADAU A GWASANAETHAU EIRIOLI

## PENNOD 3

GWASANAETHAU EIRIOLI

### 181 Darparu gwasanaethau eirioli

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol drefnu i wasanaethau eirioli gael eu rhoi ar gael i bobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r anghenion hynny yn cael eu diwallu gan awdurdod lleol ai peidio); mae hyn yn ddarostyngedig i adran 182.

(2) Mae "gwasanaethau eirioli" yn wasanaethau sy'n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth.

(3) Caiff y rheoliadau bennu—

(a) y personau, neu ddisgrifiad o'r personau, y mae gwasanaethau eirioli i gael eu rhoi ar gael iddynt;

(b) yr amgylchiadau y mae gwasanaethau eirioli i gael eu rhoi ar gael odanynt;

(c) y personau, neu ddisgrifiad o'r personau, y caniateir, neu na chaniateir, i wasanaethau eirioli gael eu darparu ganddynt.

(4) Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau ar gyfer rhoi gwasanaethau eirioli ar gael.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 181 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 181 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

### 182 Darparu gwasanaethau eirioli: cyfyngiadau

(1) Ni chaiff rheoliadau o dan adran 181 ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau eirioli gael eu rhoi ar gael i berson—

(a) at y diben o wneud cwyn y mae'n ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau mewn cysylltiad â hi ar gyfer darparu cynhorthwy i'r person yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 173;

(b) at y diben o gyflwyno sylwadau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy ar gyfer darparu cynhorthwy i'r person o dan adran 178;

(c) at ddibenion y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy i alluogi eiriolwr iechyd meddwl annibynnol i fod ar gael o dan adran 130E o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;

(d) at ddibenion y mae'n ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran **[**69 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** neu baragraff 6D o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

(e) at ddibenion y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau mewn cysylltiad â hwy i alluogi eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol i fod ar gael o dan adran 35 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005;

(f) at y diben o wneud cwyn y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau mewn cysylltiad â hi ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol o dan adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

(2) Pan—

(a) bo gwasanaethau eirioli yn cael eu darparu ar gyfer person o dan adran 15, 17, 35, 36, 37 neu 38, a

(b) byddai rheoliadau o dan adran 181 (ar wahân i'r is-adran hon) yn gosod gofyniad ar awdurdod lleol i roi gwasanaethau eirioli ar gael i'r person hwnnw mewn cysylltiad â'r un materion,

nid yw'r gofyniad hwnnw yn gymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 182 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I4** A. 182 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

### [F1]183 Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau eirioli mewn cartrefi gofal

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 183 wedi ei diddymu (2.4.2018) gan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (anaw 2), a. 188(1), **Atod. 3 para. 31**; O.S. 2017/1326, ergl. 2(3)(h), Atod. (ynghyd ag ergl. 6)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 17 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))